



Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr

Ymunwch â'r heddlu a newidiwch mwy na thrywydd eich gyrfa

Efallai mai dyma eich cyfle i gael effaith gadarnhaol ar blismona, y gymuned leol a chymdeithas ehangach mewn ffordd na wnaethoch erioed ei breuddwydio.



© College of Policing Limited (2018)

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio pob llun a logo) wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Coleg Anfasnachol v1.1 ac eithrio lle y nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i www.college.police.uk/Legal/Documents/Non_Commercial_College_Licence.pdf

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd partion bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad hwn contactus@college.pnn.police.uk

Cynnwys

Ynglŷn â'r Coleg Plismona	02
Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr	03
Ydych chi'n barod am her newydd yn eich gyrfa?	04
Gweithio i'r heddlu	04
Eich rôl fel swyddog yr heddlu	04
Amdanoch chi	06
Trosolwg o'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr	07
Y broses ymgeisio	10
Pa raglen Mynediad Uniongyrchol sy'n addas i chi?	12
Barn arolygydd	14

Ynglŷn â'r Coleg Plismona

Ni yw'r corff proffesiynol ar gyfer plismona i bawb sy'n gweithio i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Ein diben yw helpu'r rhai sy'n gweithio ym maes plismona i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn atal troseddu, amddiffyn y cyhoedd a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae gennym fandad i osod safonau ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys codau ymarfer a rheoliadau, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae gennym hefyd gylch gwaith i osod safonau ar gyfer gwasanaeth yr heddlu ar gyfer hyfforddiant, datblygiad, sgiliau a chymwysterau, ac rydym yn darparu'r cymorth mwyaf posibl i helpu gwasanaeth yr heddlu i roi'r safonau hyn ar waith.

Rydym yma i roi'r offer, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i bawb sy'n gweithio ym maes plismona er mwyn iddynt allu datblygu a llwyddo. Mae gwasanaeth yr heddlu yn wynebu cyfres o heriau - yn amrywio o'r newid y mae'n rhaid i heddluoedd ei wneud er mwyn arbed arian a lleihau troseddu, i gymhlethdod cynyddol y bygythiadau i ddiogelwch gwladol, diogelwch y cyhoedd a threfn gyhoeddus. Rydym yn helpu i oresgyn yr heriau hyn. Gan weithredu er budd y cyhoedd, rydym yn llais awdurdodol ym maes plismona, gan adolygu'n barhaus sut rydym yn cefnogi gwasanaeth yr heddlu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cyflwyno pwyntiau Mynediad Uniongyrchol i wasanaeth yr heddlu ar gyfer arolygwyr ac uwch-arolygwyr.

Mae rhaglenni hyfforddi a datblygu Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr ac Uwch-arolygwyr yn newid sylfaenol a hanfodol er mwyn cyflwyno safbwyntiau, sgiliau a phrofiadau newydd i wasanaeth yr heddlu a darparu gwasanaeth sy'n broffesiynol, yn effeithlon ac yn gallu ymdrin â'r pwysau cynyddol a wynebwn heddiw ac yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr i recriwtio arweinwyr profiadol i'n rhaglenni Mynediad Uniongyrchol, a fydd yn gallu dod â syniadau a meddylfryd newydd i wasanaeth yr heddlu.

Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr

Mae'r materion y mae gwasanaeth yr heddlu yn eu hwynebu heddiw yn gofyn am syniadau ffres a ffyrdd newydd o weithio

Mae'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr yn cynnig yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnoch i bontio o'ch rôl bresennol fel arweinydd i fod yn arweinydd gweithredol gyda'r heddlu a dilyn gyrfa newydd yng ngwasanaeth yr heddlu.

Mae Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr wedi'i hanelu at unigolion eithriadol a chanddynt sgiliau arwain a rheoli sy'n awyddus i gael gyrfa sy'n cynnig her a boddhad. Cynlluniwyd y rhaglen dwy flynedd i ddarparu hyfforddiant cadarn a chynhwysfawr i sicrhau y byddwch yn arolygydd gweithredol cymwys mewn lifrai ar ddiwedd y rhaglen, ac yn gallu cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar blismona a'ch cymuned.

Er bod gwaith swyddog yr heddlu yn gyffrous, yn ddwys ac yn amrywiol, nid yw'n swydd naw tan bump. Mae'n golygu gweithio oriau na ellir eu rhagweld yn aml mewn amgylchiadau risg uchel. Disgwylir i chi reoli digwyddiadau difrifol a chyfeirio a chefnogi eich tîm i ymdrin â sefyllfaoedd sydd yn aml yn gymhleth a lle mae amser yn ffactor dyngedfennol. Bydd yn rhaid i chi gyfiawnhau eich gweithredoedd a rhoi cyfrif amdanynt i sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd foesegol, gyda gonestrwydd ac yn unol â'r safonau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl.

Nid oes angen profiad blaenorol o blismona er mwyn ymuno â'r Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr. Mae'r rhaglen dwy flynedd yn gyfuniad o ddysgu yn y dosbarth a ddarperir yn ein canolfannau hyfforddi rhanbarthol a hyfforddiant a datblygiad gweithredol yn eich heddlu lleol. **Byddwch yn treulio 80 y cant o'ch hyfforddiant yn gweithio ar sail cylchdro gweithredol gan ddysgu drwy brofiad uniongyrchol yn union beth y mae plismona yn ei olygu.**

Os ydych eisiau gwneud rhywbeth gwerth chweil a rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned, yna efallai bod gyrfa fel Arolygydd drwy ein rhaglen Mynediad Uniongyrchol yn addas i chi.

Rydym hefyd wedi datblygu rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr.

I ddarganfod mwy am y ddwy raglen ac i wneud cais, ewch i leadbeyond.police.uk

Ydych chi'n barod am her newydd yn eich gyrfa?

Gweithio i'r heddlu

Mae swydd yng ngwasanaeth yr heddlu yn golygu lleihau troseddau a'r ofn sydd ynghlwm wrth droseddau. Bydd cyflawni hyn yn golygu ymateb i heriau'n ddyddiol, ysgwyddo cyfrifoldeb, gweithio fel tîm ac ennyn parch eich cymuned.

Mae ymuno â'r heddlu drwy'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr hefyd yn golygu y byddwch yn gallu mynd i'r afael â'r heriau y mae gwasanaeth yr heddlu yn eu hwynebu dros y pum mlynedd nesaf a'r tu hwnt i hynny:

- cynnal y broses o ddarparu gwasanaethau yn ystod cyfnod o gyni parhaus
- ymdrin â newidiadau yn y mathau o droseddau (ee, seiber, trawsffiniol, demograffeg)
- newid sefydliadol mewnol (ee, strwythur, hyd gwasanaeth, morâl isel, diwylliant)
- rheoli'r angen am gydweithredu ehangach a dyfnach (ee, partneriaid newydd, uno)
- defnydd effeithiol o dechnolegau newydd gan yr heddlu
- ymateb i graffu cynyddol, atebolrwydd a galwadau am dryloywder
- dylanwad cynyddol yr amgylchedd gwleidyddol
- cynnal hyder y cyhoedd
- yr angen i ailddiffinio llwyddiant
- cynyddu'r galw y tu hwnt i 'leihau troseddau' yn unig.

Eich rôl fel arolygydd yr heddlu

Rheolwyr canol gwasanaeth yr heddlu yw arolygwyr, sy'n aml yn gweithio ar y rheng flaen.

Mae amrywiaeth o rolau ar gael i arolygwyr mewn lifrai. Bydd arolygydd cyffredinol yn arwain shiftt a fydd yn cynnwys cwnstabiliaid a rhingylliaid, gan oruchwylio'r ddwy reng a darparu arweinyddiaeth pan fydd digwyddiadau heriol yn codi. Yn aml, byddant yn bresennol mewn cyfarfodydd rheoli a chydgyssylltu ac yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, yn effeithlon ac yn ddiogel.



Mae cyfrifoldebau arolygydd yn rhai eang ac yn cynnwys arwain, cynllunio, trefnu a rhoi awdurdodiadau yn ôl yr angen yn unol â statud. Mae'n rôl arwain ac yn rôl weithredol. Rhaid i arolygwyr allu:

- darparu arweiniad cryf ac ysbrydoliaeth i eraill, o fewn gwasanaeth yr heddlu a'r tu allan iddo
- rheoli timau o swyddogion a staff
- ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli digwyddiadau tyngedfennol a digwyddiadau mawr
- dyrannu gwaith a monitro perfformiad ar draws eu tîm neu eu huned
- adolygu systemau, gweithdrefnau ac arferion er mwyn cyflwyno gwelliannau
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau
- rheoli cyllidebau
- ennyn hyder cymunedau drwy arweinyddiaeth weladwy a phartneriaethau agos.

Byddwch hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill ac, yn bwysicach, y cymunedau y byddwch yn eu gwasanaethau er mwyn cynnal cyfraith a threfn, diogelu aelodau o'r cyhoedd a'u heiddo, atal troseddu, a gwella ansawdd bywyd i bob dinesydd.

Amdanoch chi

Bydd angen i chi fod yn uchelgeisiol, yn gryf, yn benderfynol ac yn realistig o ran y gofynion.

Nid yw gwaith swyddog yr heddlu yn swydd naw tan bump. Bydd disgwyl i chi ddarparu arweiniad mewn sefyllfaoedd heriol ac anodd, gall yr oriau fod yn rhai nad oes modd eu rhagweld a gall y shifftiau fod yn hir ar brydiau. Bydd angen i chi gyfiawnhau eich gweithredoedd a bod yn atebol drostynt er mwyn sicrhau eich bod yn gweithio'n foesebol ac yn unol â'r safonau uchel y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl.

Y gwahaniaeth gyda'r yrfa hon yw yn ogystal â gwella eich rhagolygon eich hun, byddwch hefyd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl yn eich cymuned.

- Ydych chi'n meddu ar record dda o sicrhau llwyddiant fel rheolwr?
- Ydych chi'n meddu ar y gallu a'r profiad i arwain adrannau mawr?
- Ydych chi'n gallu dysgu gwersi o sefydliadau eraill a'u cymhwyso i blismona?
- Ydych chi'n barod i feddwl yn annibynnol a gofyn pam mae pobl yn gwneud pethau y 'ffordd yma'?
- Ydych chi'n hyderus yn eich sgiliau busnes ac ariannol ac yn gallu defnyddio'r rhain wrth wneud penderfyniadau rheoli?
- Ydych chi'n gallu helpu i roi mentrau ar gyfer newidiadau sefydliadol sylweddol ar waith?
- Ydych chi'n meddu ar yr hunanhyder a'r gwydnwch personol i oresgyn unrhyw wrthwynebiad i newid diwylliannol?
- Ydych chi'n gallu gweithio'n hyblyg, ymrwymo i weithio sifftiau, gweithio gyda'r nosau/dros nos ac ar benwythnosau ac yn barod i wneud hynny'n rheolaidd?
- Ydych chi'n gallu ysbrydoli eich tîm?
- Ydych chi'n gallu pennu strategaeth?
- Ydych chi'n credu mewn gwasanaeth cyhoeddus?
- Ydych chi'n gallu gosod safonau uchel o ran ymddygiad a rheoli perfformiad?
- Ydych chi'n gallu creu partneriaethau a pherthnasoedd?
- Ydych chi'n meddu ar y gwytnwch emosiynol i ymdrin â sefyllfaoedd anodd gyda thosturi a phwyll?
- Ydych chi'n meddu ar gymhelliant i wneud gwahaniaeth yn eich cymuned?
- Ydy cyflog cychwynnol o £49k yn gymhelliant i chi?

Os ydych chi'n credu eich bod yn meddu ar yr hyn sydd ei angen, yna gwnewch gais i'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr. Ewch i leadbeyond.police.uk

Trosolwg o'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr

Strwythur y rhaglen

Mae'r Rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu agweddau arwain, rheoli a gweithredol er mwyn rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i chi i'ch galluogi i gyflawni'r swydd arolygydd yn effeithiol. Cewch gefnogaeth gan eich heddlu a bydd yn rhaid i chi gael asesiadau rheolaidd, ble y bydd angen i chi gyrraedd safonau penodol er mwyn parhau â'r rhaglen.

Fel aelod o'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol, byddwch yn dal swydd arolygydd o'r diwrnod y byddwch yn dechrau'r hyfforddiant a byddwch yn gweithio ar sail cylchdro fel cwnstabl, rhingyll ac yna fel arolygydd. Cewch bopeth fydd ei angen arnoch i ddatblygu a dangosir i chi sut i roi'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu ar waith yn ymarferol. Yn y pen draw, bydd angen i chi feddu ar agwedd benderfynol a hyder er mwyn rheoli eich datblygiad proffesiynol eich hun drwy'r rhaglen gyfan.

Mae'r rhaglen yn cyfuno dysgu yn yr ystafell ddosbarth gyda hyfforddiant gweithredol a chaiff ei chyflwyno ar y cyd â'r heddlu sy'n eich cyflogi. Byddwn yn cefnogi unigolion gyda'u datblygiad i'w helpu i berfformio'n effeithiol fel arolygydd ac yn cefnogi datblygiad parhaus unigolion er mwyn cyrraedd lefel uwch-arolygydd o leiaf yn ystod eu gyrfaedd.

Cylchdro cwnstabl

Yn ystod eich cyfnod ar gylchdro cwnstabl, bydd cwnstabl profiadol yn diwtor i chi. Byddwch ar reng flaen y system cyfiawnder troseddol, yn ymdrin â phopeth o droseddau difrifol megis cam-drin plant, pobl sydd ar goll, marwolaethau sydyn, i anghydfodau teuluol a thensiynau yn y gymuned. Y cylchdro hwn fydd y cyfle cyntaf i chi ddefnyddio eich hyfforddiant yn effeithiol, gan droi theori yn ymarferol o ddydd i ddydd.

Rhingyll

Yn ystod eich cyfnod ar gylchdro rhingyll, unwaith eto gyda chymorth beunyddiol, byddwch yn cymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio swyddogion a'r tîm ehangach o gydweithwyr yn yr heddlu, o safbwynt cyffredinol a thechnegol. Byddwch yn rheoli adnoddau, yn goruchwylio ymchwiliadau ac yn cadw llygad barcud ar ymatebion i ddigwyddiadau tyngedfennol. Byddwch hefyd yn cynnal sesiynau briffio ar sail cudd-wybodaeth, sesiynau trafod tasgau ac ôl-drafodaeth, ac yn rhoi arweiniad i'ch tîm.

Trosolwg o'r rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr

Arolygydd

Byddwch yn ymgymryd â rôl arolygydd, gan oruchwylio cwnstabiliaid a rhingylliaid. Byddwch yn cynllunio, yn trefnu ac yn cyfarwyddo gwaith tîm o swyddogion a staff yr heddlu mewn amrywiaeth o dasgau gorfodi'r gyfraith a phlisona. Byddwch hefyd yn rheoli gweithrediadau plismona, yn pennu'r strategaeth ac yn cydgysylltu'r ymateb i ddigwyddiadau tyngedfennol. Yn aml, chi fydd y swyddog uchaf ei statws ar ddyletswydd oherwydd natur 24-awr y rôl.

Cynnwys y rhaglen

Y Coleg Plismona – Cam 1

Modiwl 10 wythnos a chyfnod cynefino yw Cam 1 sydd â'r nod o baratoi aelodau'r rhaglen ar gyfer eu cylchdro gweithredol cyntaf fel cwnstabl a chaiff ei gyd-redeg â'r rhaglen ar gyfer uwch-arolygwyr. Mae Cam 1 yn cynnwys rhaglen gynefino 2-wythnos gyda'r heddlu, proses ardystio a hyfforddiant preswyl.

Cylchdro cwnstabl yr heddlu

Mae aelodau'r rhaglen yn treulio 14 wythnos gyda'r heddlu, gan gyflawni rôl cwnstabl o dan oruchwyliaeth hyfforddwr seiliedig-ar-waith profiadol.

Y Coleg Plismona – Cam 2

Modiwl 4-wythnos yw Cam 2 sydd â'r nod o baratoi aelodau'r rhaglen ar gyfer eu cylchdro gweithredol fel rhingyll ac mae'n cyflwyno'r rôl arolygydd.

Cylchdro rhingyll

Mae aelodau'r rhaglen yn treulio 14 wythnos gyda'r heddlu, gan gyflawni rôl rhingyll o dan oruchwyliaeth hyfforddwr seiliedig-ar-waith.

Y Coleg Plismona, Cam 3

Modiwl 3-wythnos yw Cam 3 sydd â'r nod o baratoi aelodau'r rhaglen ar gyfer eu cylchdro arolygydd, gan ddatblygu ymhellach eu sgiliau rheoli risg a gwneud penderfyniadau.

Cylchdro arolygydd

Mae aelodau'r rhaglen yn treulio 15 wythnos gyda'r heddlu, yn cyflawni rôl arolygydd o dan oruchwyliaeth hyfforddwr seiliedig-ar-waith.

Y Coleg Plismona – Cam 4

Modiwl 2-wythnos yw Cam 4 sydd â'r nod o ddatblygu gwybodaeth aelodau'r rhaglen am gwynion a disgyblu, rheoli perfformiad, arweinyddiaeth, rheoli newid a gweithio mewn partneriaeth.

Cylchdro swyddog ar ddyletswydd/rheolwr digwyddiadau tyngedfennol (gyda chymorth)

Mae aelodau'r rhaglen yn treulio 12 wythnos gyda'r heddlu, yn gweithio fel swyddog ar ddyletswydd/rheolwr digwyddiadau tyngedfennol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r aelod o'r rhaglen yn cymryd cyfrifoldeb dros dîm gweithredol am y tro cyntaf a chaiff ei fentora'n barhaus i gefnogi ei ddatblygiad.

Cyfnod arolygydd o fewn yr heddlu (26 wythnos)

Yn y cam terfynol hwn o hyfforddiant bydd y myfyriwr yn gweithredu o fewn y rheng darged er mwyn datblygu ac ymchwilio i'w sgiliau yn ei rôl. Bydd aelodau'r rhaglen yn cwblhau eu hasesiad yn y gweithle a'r asesiad penodol seiliedig-ar-waith yn ystod y cyfnod hwn.

Cwblhau rhaglen y Coleg Plismona

Drwy gydol y 24 mis, mae aelodau'r rhaglen yn ymgymryd ag asesiad seiliedig ar waith, arholiad ar wybodaeth arolygwyr a phrosiectau ymchwil gweithredol.

Cwblhau'r cyfnod prawf

Bydd gan aelodau'r rhaglen tan ddiwedd eu cyfnod prawf i gwblhau'r asesiad yn seiliedig-ar-waith ar lefel arolygydd.



Y broses ymgeisio

Mae'r broses recriwtio ar gyfer y rhaglen yn digwydd yn flynyddol ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

Cam cyntaf y broses yw cwblhau'r ffurflen gais ar-lein y gallwch ddod o hyd iddi ar wefan y rhaglen Mynediad Uniongyrchol leadbeyond.police.uk

Bydd yn ofynnol i chi ddangos y cymwyseddau perthnasol ar gyfer y rhaglen yn eich cais. Gallwch ddod o hyd i gymorth a chanllawiau ar gwblhau ffurflenni cais sy'n seiliedig ar gymwyseddau ar leadbeyond.police.uk.

Yna bydd arbenigwyr recriwtio eich heddlu yn sifftio'r holl geisiadau a gwblhawyd.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng nghyfweliad yr heddlu a'r Ganolfan Asesu Genedlaethol yn cael cynnig lle ar y rhaglen gan yr heddlu, yn amodol ar nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus a'r swyddi sydd ar gael.

Cymhwysedd

Er mai ffocws y rhaglen hon yw denu unigolion sy'n meddu ar sgiliau arwain eithriadol o'r tu allan i faes plismona, bydd angen i chi ysgwyddo cyfrifoldebau swyddog yr heddlu hefyd.

Mae hynny'n golygu y bydd angen i chi fodloni'r un meini prawf cymhwyster sy'n ofynnol i unigolion eraill sy'n ymuno â gwasanaeth yr heddlu. Bydd y meini prawf hyn yn cynnwys gwiriadau ynghylch eich sefyllfa ariannol, unrhyw gollfarnau troseddol blaenorol, eich ffitrwydd ac aelodaeth o unrhyw grwpiau gwleidyddol.

Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr feddu ar gymhwyster Lefel 6/7 ond byddwn hefyd yn ystyried ymgeiswyr sy'n gallu dangos y lefel gyfatebol o brofiad ar gyfer rhaglen 2019.

Strwythur asesu

Yn y Ganolfan Asesu Genedlaethol, byddwch yn cael eich asesu gan nifer o aseswyr gwahanol. Mae'r holl aseswyr wedi'u hyfforddi'n briodol mewn perthynas â'r egwyddorion a'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag asesu eraill mewn dull gwrthrychol a theg. Mae aseswyr hefyd yn cael hyfforddiant ar gyfer yr ymarferion penodol a ddefnyddir yn y ganolfan asesu. Mae'r timau asesu yn cynnwys cymysgedd o aseswyr gwasanaeth (o un o heddluoedd y Deyrnas Unedig) ac aseswyr allanol o'r tu allan i faes plismona.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses ymgeisio, y meini prawf cymhwysedd a'r strwythur asesu ar [leadbeyond.police.uk](https://www.leadbeyond.police.uk)

Sut ydych chi'n penderfynu a ydw i'n llwyddiannus?

Ar ôl yr asesiad, caiff eich perfformiad cyffredinol ei ystyried. Os byddwch yn cyrraedd y safon angenrheidiol a byddwch yn cael eich argymhell ar gyfer y rhaglen Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr.

Yna, caiff ymgeiswyr a argymhellir eu paru â heddluoedd yn seiliedig ar eu dewisiadau cychwynnol, cyhyd ag y bo'n bosibl. Yna, bydd yr heddluoedd yn penderfynu pa rai o'r ymgeiswyr a argymhellir y maent yn dymuno cynnig lle iddynt. Gall heddluoedd benderfynu cynnal cyfweiliadau neu gam dethol ychwanegol cyn cynnig lleoedd i ymgeiswyr.



Pa raglen Mynediad Uniongyrchol sy'n addas i chi?

	Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Arolygwyr	Mynediad Uniongyrchol ar gyfer Uwch-arolygwyr
Hyd y rhaglen	24 mis	18 mis
Rôl	Rheolwyr canol ar y rheng flaen sy'n ymdrin â mentrau troseddu yw Arolygwyr. Mae'n rôl gweithredol. Mae Arolygwyr yn aml yn gyfrifol am shifft dyletswydd sy'n cynnwys cwnstabiliaid a rhingylliaid, gan oruchwylio'r ddwy lefel, a mynychu cyfarfodydd rheoli a chydlynu gan sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.	Uwch reolwyr sy'n gyfrifol am bennu strategaeth, safonau a pholisi gweithredol o ddydd i ddydd ar draws un adran neu amrywiaeth o gyfrifoldebau plismona yw uwch-arolygwyr.
Cyfrifoldebau	<p>Rheoli, cynllunio, trefnu ac awdurdodi gwaith swyddogion yr heddlu a staff sifil, gan ddyrannu gwaith a rheoli perfformiad.</p> <p>Rhoi arweiniad a rheoli timau.</p> <p>Cymryd cyfrifoldeb dros reoli digwyddiadau o bwys.</p> <p>Adolygu systemau, gweithdrefnau ac arferion, er mwyn cyflwyno gwelliannau.</p> <p>Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.</p>	<p>Rhoi cynllun busnes strategol yr heddlu ar waith.</p> <p>Pennu pryderon a blaenoriaethau cymunedau mewn perthynas â diogelwch, cynhwysiant cymdeithasol ac atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p> <p>Pennu, monitro ac adolygu strategaethau.</p> <p>Rheoli heriau ariannol.</p> <p>Gwella perfformiad sefydliadol.</p>

<p>Sgiliau a phrofiad angenrheidiol</p>	<p>Uniondeb personol ac ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus.</p> <p>Sgiliau arwain hyblyg.</p> <p>Gwydnwch ac agwedd gadarnhaol.</p> <p>Sgiliau ariannol a busnes mewnol.</p> <p>Datblygu partneriaethau.</p> <p>Y gallu i arwain newid sefydliadol effeithiol.</p> <p>Creadigrwydd ac arloesedd.</p> <p>Meddwl agored ac yn barod i herio diwylliant ac arferion presennol.</p> <p>Cymhwyso rheoliadau a gweithdrefnau perthnasol mewn sefyllfaoedd cymhleth, anrhagweladwy ac amrywiol.</p>	<p>Llwyddiant blaenorol o ran gwella perfformiad sefydliadol, rheoli cyllidebau ac adnoddau.</p> <p>Cyfathrebu effeithiol ac argyhoeddiadol i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.</p> <p>Cynllunio, arwain a gweithredu prosiectau cymhleth sy'n gofyn am gyfathrebu trawsddisgyblaethol.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth a sgiliau rheoli adnoddau lefel uchel.</p> <p>Technegau gwerthuso critigol i lywio penderfyniadau a datblygu ffiniau gwybodaeth broffesiynol am blismona.</p> <p>Cymhwyso rheoliadau, gweithdrefnau a deddfwriaeth yn sensitif mewn sefyllfaoedd anrhagweladwy ac amrywiol.</p>
<p>Cyflog</p>	<p>Cyflog cychwynnol o tua £48k</p>	<p>Cyflog cychwynnol o tua £64k</p>

Barn arolygydd

Lee Page, Heddlu Gorllewin Mercia



Roeddwn wedi gweithio yn y maes newyddiaduraeth a chysylltiadau cyhoeddus ers 10 mlynedd ac wedi meithrin sgiliau a phrofiad mewn amrywiol sectorau ar lefel rheolwr ac roeddwn wedi cael fy nenu at blismona yn ystod y blynyddoedd hynny.

Roedd yn rhywbeth yr oeddwn yn gwybod fy mod eisiau ei wneud. Roeddwn yn teimlo y gallai fy sgiliau fod yn ddefnyddiol ar lefel uwch a rhoddodd y rhaglen Mynediad Uniongyrchol y cyfle i mi wneud hynny.

Pan oeddwn yn ifanc, yr unig beth roeddwn i eisiau bod oedd newyddiadurwr. Roedd gennyf syniadau am ddwyn awdurdodau i gyfrif a brwydro yn erbyn y mawrion ar ran y gymuned. Pan ddechreuais i weithio yn sector, nid oedd yn ddim byd tebyg i'r hyn roeddwn i wedi'i ddychmygu. Doeddwn i ddim yn teimlo fy mod i'n helpu pobl nac yn gwneud gwahaniaeth, felly ymunais â'r heddlu mewn swydd cysylltiadau cyhoeddus.

Fe wnes i fwynhau'r swydd honno'n fawr ac roeddwn yn teimlo fel fy mod i'n gwneud gwahaniaeth, ond y mwyaf roeddwn i'n ei weld a'r mwyaf roeddwn i'n ei weithio gyda swyddogion yr heddlu ar y rheng flaen, y mwyaf yr oeddwn yn sylweddoli faint roedden nhw'n ei wneud ar y rheng flaen a'r gwahaniaeth gwirioneddol roedden nhw'n ei wneud i fywydau pobl.

Roeddwn yn ôl yn y swyddfa ac erbyn i mi ddechrau delio gyda materion a oedd yn effeithio ar blismona, roedd hi'n rhy hwyr i mi wneud llawer am y peth. Roedd y swydd yn ymwneud â lleihau niwed, cadw enw da, a doeddwn i ddim yn cael y boddhad yr oeddwn i'n teimlo y dylwn i ei gael, felly fe wnes i gais am y rhaglen Mynediad Uniongyrchol.

Tra roeddwn ar gylchdro rhingyll y rhaglen Mynediad Uniongyrchol i Arolygwyr, yn gweithio fel Rhingyll dan arweiniad tiwtor-Ringyll, roeddwn yn gyfrifol am oruchwylio tîm o Swyddogion yr heddlu, a oedd yn ymateb i alwadau 999 a galwadau am wasanaeth gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r swyddogion yn delio ag amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, o bobl sydd ar goll i ymosodiadau, materion gwrthgymdeithasol yn y gymuned a phopeth rhwng hynny. Fel Rhingyll sy'n gofalu am y tîm fe wnes i'n siŵr eu bod yn mynd i'r lleoedd cywir ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol fel adnoddau gan flaenoriaethu'r pethau cywir.

Yn ystod y cylchdro Rhingyll, roedd rhai o'r heriau yn ymwneud â phobl ar goll a oedd mewn perygl mawr. Roedd un achos yn ymwneud â rhywun a oedd yn bwriadu lladd ei hun.

Rhodddwyd y cyfrifoldeb o ddod o hyd i'r fenyw hon i mi a'm swyddogion. Roedd ceisio dod o hyd iddi gan ddefnyddio'r holl bwerau a oedd ar gael i mi yn frawychus. Roeddwn yn teimlo bod cyfrifoldeb mawr arnaf fi a'r tîm i ddod o hyd iddi cyn gynted â phosibl.

Yn ystod y cam Arolygydd, roedd yn rhaid i mi reoli tîm o Ringylliaid a Chwnstabliaid. Yn gynharach yn y rhaglen roeddwn ar gylchdro Cwnstabl, a oedd yn golygu mynd allan gyda chwnstabliaid eraill yn gwisgo fy mathodynau Arolygydd, ond yn gwneud gwaith Cwnstabl. Fe wnes i amrywiaeth eang o waith fel Cwnstabl.

Un achos sy'n aros yn y cof oedd pâr oedrannus yr oedd eu car wedi bod mewn gwrthdrawiad â bws. Y peth gorau oedd gallu rhoi fy mraich o'u hamgylch a'u cysuro. Nid oedd y pâr erioed wedi dod i gysylltiad â'r heddlu o'r blaen ac roedd bod yno iddyn nhw a gallu gwneud gwahaniaeth yn brofiad gwych.

Roedd y ffaith i mi gael llythyr ganddyn nhw wedyn yn dweud pa effaith a gafodd hynny arnynt a faint o dawelwch meddwl a gawsant yn sgil y ffaith bod yr heddlu yno wedi gwneud gwahaniaeth mawr i mi.

Roedd achos arall yn ymwneud â menyw oedrannus a oedd yn cael ei cham-drin yn y cartref. Roedd ei gŵr wedi ei tharo a fi oed y swyddog a lwyddodd i'w chael hi i siarad am y ffaith iddi gael ei cham-drin ers degawdau. **Mae bod yno a chreu cysylltiad gyda rhywun fel eu bod yn agor eu calon i chi er mwyn i chi allu rhoi'r help sydd wedi bod ei angen arnynt nhw ers cyhyd yn rhywbeth na allwch ei fesur.**

Mae'r croeso rwyf wedi'i gael yn yr heddlu wedi bod yn syndod i mi. Clywais lawer am wrthwynebiad diwylliannol i'r cynllun. Mi wn ei fod yn gysyniad newydd a bod ambell un yn ei ddrwgdybio. Nid yw rhai pobl yn ei hoffi ac maen nhw'n amheus ohono, ond rwyf wedi gweld mai sut fath o unigolyn ydw i sy'n bwysig.

Mae'n ymwneud â'r berthynas y gallwch ei chreu gyda phobl. Rwyf wedi canfod os byddaf yn siarad â rhywun mewn ffordd y byddwn yn hoffi i rywun siarad â fi ac ymddwyn yn yr un ffordd ag y byddwn yn ei wneud yn fy swyddi blaenorol, mae pobl yn fy nerbyn yn iawn. Maen nhw wedi fy nghefnogi, rydym wedi cyddynnu'n dda ac rwyf wedi gallu gwneud fy ngwaith, maent hwythau wedi gallu gwneud eu gwaith nhw ac mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol.

Mae 'na ambell un sydd ddim yn hoff o'r rhaglen, neu'n amharod i'w derbyn, ond dyna fel mae pethau. Mae'n rhaid dyfalbarhau, ac mewn gwirionedd mae'r rhan fwyaf o bobl yn gefnogol iawn ac yn hawdd cyd-dynnu â nhw.

Mae'r rhaglen hon wedi bod yn gyfle anhygoel. Gallwch ymuno â'r heddlu ar lefel rheolwr a gwneud gwahaniaeth gan ddefnyddio'r holl sgiliau rydych wedi'u datblygu drwy weithio mewn sectorau eraill. Mae'n swydd heb ei hail. Gallwch fynd allan ac ymateb i bobl sydd mewn angen ac mae'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Cewch gefnogaeth heb ei hail gan y Coleg Plismona a'r heddluoedd sy'n rhan o'r rhaglen. Ewch chi ddim ar goll mewn môr o ddysgu, gan fod ffocws cryf i'r rhaglen. Mae llawer o gymorth o'ch amgylch i'ch helpu i lwyddo. Byddwn i'n argymhell y rhaglen Mynediad Uniongyrchol yn fawr.

Ynglŷn â'r Coleg

Ni yw'r corff proffesiynol ar gyfer plismona ar gyfer pawb sy'n gweithio ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Ein diben yw helpu'r rhai sy'n gweithio ym maes plismona i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn atal troseddu, amddiffyn y cyhoedd a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

college.police.uk



Dilynwch ni
@CollegeofPolice
@LeadBeyond